**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (42)**

**Dydd Mercher, 15 Ionawr 2003**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol**

**Eitem 4**
**Dadl ar Orchymyn Diwygio Rheoliadol: Deddf Landlord a Thenant 1954**
*Ni gyflwynwyd cynnig.*

**Eitem 5**
**Dadl ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Dwyieithog: "Iaith Pawb."**
**NDM1289 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel y'i nodir yn *Iaith Pawb*, y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog.

*Gellir dod o hyd i'r ddogfen drwy glicio ar un o'r isod:*
http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/action-plan-e.pdf
http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/action-plan-w.pdf

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r*

*gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*
**(1),(2),(5),(6),(7),(8),(9),(10) + (11)**
**(3)+(4)**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl 'Yn croesawu strategaeth', ychwanegu "ddrafft"

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl "Cymru ddwyieithog" ar ddiwedd y cynnig, ychwanegu "ac yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi cynllun gweithredu manwl ac amserlen i gyd-fynd â'r strategaeth o fewn chwe wythnos"

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraethau Ceidwadol blaenorol i atal dirywiad yr iaith.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn hyrwyddo'r ffaith ei bod yn bwysig i rieni sy'n siarad Cymraeg annog eu plant i ddefnyddio'r iaith.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn mynegi pryder am y lefelau cyllido ar gyfer yr agweddau ar y strategaeth sy'n ymwneud ag addysg".

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod arian clustnodedig yn cael ei roi i Fudiad Ysgolion Meithrin er mwyn denu a chadw staff cylchoedd meithrin gyda'r nod o hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg."

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn elfen hanfodol wrth greu Cymru ddwyieithog ac yn cydnabod yr angen am fframwaith strategol cenedlaethol i'r perwyl hwn.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod diffiniadau cenedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog yn cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith"

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru );**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi'r ymrwymiad yn 'Ein Hiaith : Ei Dyfodol' i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael mynediad i ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion, yn eu dewis iaith ar sail gyfartal ledled Cymru yn cael ei chydnabod, ac i sicrhau y gweithredir ar yr hawl honno, ac yn galw ar y Llywodraeth i roi hyn ar waith yn ei strategaeth derfynol".

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gynnwys yn ei strategaeth ymrwymiad i dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg bellach ac uwch.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu mynediad i dai fforddiadwy mewn ardaloedd lle defnyddir y Gymraeg fel iaith gyntaf naturiol y gymuned ac yn galw ar y Llywodraeth i weithredu polisïau i gyflawni hyn.

**Eitem 6**
**Dadl fer - NDM1290 David Ian Jones (Gogledd Cymru); Clafdai: yr angen am sefydlogrwydd ariannol**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 21 Ionawr 2003**

**E P Silk**

Clerc y Cynulliad